Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Mathemateg a Rhifedd


## // Gweithgareddau a Gemau



# BOWLIO AR Y TRAETH

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn datblygu sgiliau cyfrif drwy gadw sgôr.**



### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Cynwysyddion ysgafn, e.e. cwpanau papur
Peli

### Beth i'w wneud...

1. Rhannwch y grŵp yn dimau a rhowch ddigon o setiau o gynwysyddion a pheli i bob tîm gael chwarae.
2. Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r cynwysyddion gyda thywod gwlyb a'u gosod mewn siâp triongl bowlio.
3. Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd tro i ddefnyddio'r peli i daro'r cynwysyddion i'r llawr, gan roi pwynt am bob cynhwysydd sy'n disgyn.
4. Daliwch ati tan i bob aelod o bob tîm gael tro ar fowlio.
5. Trafodwch nifer y pwyntiau a enillwyd.